

Ailystyried gorfodaeth am daflu sbwriel a chŵn yn baeddu Crynodeb

Ionawr 2022



Ailystyried gorfodaeth am daflu sbwriel a chŵn yn baeddu

Gall gorfodaeth fod yn 'offeryn' pwysig yn y bocs offer ar gyfer atal sbwriel ond mae'n cael ei orbwysleisio fwyfwy fel y prif ddull o sicrhau cydymffurfiaeth. Nid yw'n syndod ei fod yn ateb poblogaidd a gynigiwyd gan y cyhoedd ac arweinwyr gwleidyddol a allai ei ystyried yn ateb 'didostur' sy'n rhoi 'buddugoliaeth gyflym'.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi datblygu ymagwedd holistaidd tuag at Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, sy'n seiliedig ar atal, deall ymddygiad, cydweithrediad a phartneriaeth. Mae rhan o'r ymagwedd hon yn cynnwys defnyddio pwerau gorfodi, ond gwyddom o'n profiad mewn cymunedau a'n gwaith gyda staff gorfodi rheng flaen ledled Cymru, na all gorfodaeth weithio fel elfen annibynnol a bod yn rhaid i hyn fod yn rhan o strategaeth ymgysylltu ac atal ehangach.

Er bod llawer o awdurdodau a chynghorwyr lleol yn cyfeirio at geisiadau cyson am 'orfodaeth lymach' yn erbyn troseddau amgylcheddol, pan ddefnyddir contractwyr preifat, mae eu hymagwedd, sy'n aml yn llawdrwm, wedi arwain at gŵynion helaeth gan y cyhoedd ac mae llawer o gontractau preifat yng Nghymru wedi cael eu terfynu o ganlyniad i hynny.

Yn yr un modd, mae rhai awdurdodau lleol yn brolio am y nifer o Hysbysiadau Cosb Benodedig maent wedi'u cyflwyno am daflu sbwriel a chŵn yn baeddu, sy'n bwrw amheuaeth ar effeithlonrwydd y dull atal.

Mae heriau i ddulliau gorfodi yn cynnwys:

- Effeithiolrwydd gorfodi fel dull o atal ymddygiad sy'n gwbl ddibynol ar y gred o gael eich dal.
- Natur gymhleth rôl a blaenoriaethau cyferbyniol swyddogion gorfodi.
- Y materion dadleuol ynghylch contractwyr gorfodi preifat.
- Nifer y swyddogion ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer gorfodaeth amgylcheddol (sy'n fwy dwys o ran adnoddau o gymharu â gweithgareddau gorfodi eraill fel meysydd parcio ceir).
- Yr angen am gymorth gweinyddol swyddfa gefn.
- Anghysondeb y neges, systemau swyddfa gefn a chosbau a gyflwynir gan Ynadon.

Mae'n anodd llunio cydberthynas uniongyrchol rhwng Hysbysiadau Cosb Benodedig ac ymddygiad er bod ymchwil o wledydd eraill, er enghraifft Singapore, yn dangos bod rhywfaint o dystiolaeth o 'wrthwynebiad' i orfodaeth lawdrwm, a allai gynyddu'r nifer o droseddwyr ystyfnig. Mae adroddiadau ac astudiaethau sydd wedi ystyried y maes hwn wedi argymhell ymagwedd fwy holistaidd ac y dylid canolbwyntio ar atal a newid ymddygiad.

Mae Cynllun arfaethedig Atal Sbwriel a Thipio (Cymru) yn darparu cyfle i adolygu'r ffordd rydym yn cyflwyno dulliau gorfodi am daflu sbwriel a chŵn yn baeddu ac i fabwysiadu ymagwedd fwy deallusol tuag at orfodi, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i greu'r effaith fwyaf ar lawr gwlad.

Byddai ymagwedd 'ddeallus' tuag at orfodi yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg, yn seiliedig ar ddata gofodol fyddai'n cael ei hadolygu'n rheolaidd i ganfod ei heffeithiolrwydd ar lefel leol. Bydd mwy o gysondeb, yn arbennig yn nhermau casglu data gofodol, systemau swyddfa gefn, negeseuon cyhoeddus ac Ynadon yn allweddol, ac yn cydnabod yr un pryd bod yn well gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru ganolbwyntio eu hadnoddau'n gyfan gwbl ar ymdrechion ymgysylltu ac addysg yn unig.

Dylai adolygiad hefyd ystyried rôl swyddog gorfodi a'r hyfforddiant sydd ei angen (awdurdod lleol neu gontractwyr preifat) er mwyn i addysg ac ymgysylltiad allu bod yn rhan o'r rôl orfodi. Byddai sefydlu hyfforddiant safonol ar gyfer pob swyddog gorfodi yn cefnogi'r uchelgais hwn ac yn helpu i leihau cwynion gan y

cyhoedd o ran ymagwedd lawdrwm contractwyr preifat, a chaniatáu i awdurdodau lleol felly weithredu'r math o ddulliau gorfodi y maen nhw'n credu sy'n gweithio yn eu hardal nhw.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn credu mai diben gorfodi yw:

- Atal darpar droseddwyd.
- Cosbi troseddwyd posibl.
- Codi ymwybyddiaeth bod gweithred benodol yn anghyfreithlon.
- Mynd i'r afael â materion ansawdd yr amgylchedd lleol, ochr yn ochr â strategaethau eraill, pan fydd ymyriadau eraill wedi cael effaith gyfyngedig yn unig.
- Hybu newid cadarnhaol mewn ymddygiad yn y tymor hir.

I gyflawni'r nodau hyn, mae angen adolygu arferion ac agweddau presennol.

Dylai argymhellion allweddol ar gyfer adolygiad o'r fath gynnwys:

- Diwygio dulliau gorfodi yn gyffredinol er mwyn ehangu cwmpas y rôl i gynnwys addysg ac ymgysylltu, er mwyn creu mwy o 'wardeiniaid sbwriel' er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau ac amser staff ar lawr gwlad.
- Safon hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer pob swyddog gorfodi (cyhoeddus neu breifat).
- Hyfforddiant i Ynadon a staff cyfreithiol perthnasol ar Droseddau Amgylcheddol.
- Gwybodaeth neu raglen ymwybyddiaeth safonol ar gyfer cynghorwyr, arweinwyr gwleidyddol, llunwyr polisi ac asiantaethau'r cyfryngau perthnasol.
- Safoni systemau swyddfa gefn, casglu data ac adrodd (gyda galluedd gofodol).
- Rheoliadau a chanllawiau cenedlaethol ar orfodaeth am daflu sbwriel a chŵn yn baeddu sydd hefyd yn nodi egwyddorion cymesured a'r defnydd o dechnoleg at y diben o ddal troseddwyd.
- Gofyniad i awdurdodau lleol feddu ar strategaeth ysgrifenedig ar gyfer gorfodaeth (fel rhan o strategaeth ehangach ar sbwriel) sy'n arddangos cydymffurfiaeth â'r canllawiau uchod.
- Datblygu negeseuon cyhoeddus safonol a gwybodaeth gyson i'r cyhoedd sy'n cynnwys gweithdrefnau apeliadau a materion adrodd.
- Diwygio rheoliadau, yn arbennig y rheoliadau sy'n rhoi'r cyfrifoldeb o daflu sbwriel o gerbyd ar y gyrrwr.

Heb ddatblygu'r argymhellion allweddol hyn fel rhan o strategaeth ehangach ar gyfer atal sbwriel, bydd gorfodaeth yn parhau i fod yn offeryn aneffeithiol yn y bocs offer ar gyfer awdurdodau lleol a gallai gynrychioli gwastraff sylweddol yn ariannol ac o ran adnoddau dynol oni ddilynir ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar 'systemau'.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn awyddus i weld 'Wardeiniaid Sbwriel', fyddai wedi'u hyfforddi mewn dulliau amrywiol a bod ganddynt bwerau gorfodi i'w defnyddio ledled Cymru fel dull o gynyddu ymgysylltiad, dulliau atal a hyfforddiant, eu bod wedi'u hyfforddi mewn nifer o feysydd i safon uchel ac yn targedu ardaloedd sy'n achosi problemau, mewn ymagwedd sydd yn cael ei llywio gan wybodaeth sy'n defnyddio data a dadansoddiadau gofodol i dargedu dulliau atal yn yr ardaloedd lle bydd yn cael yr effaith fwyaf.

Negeseuon allweddol

- Mae gorfodi yn boblogaidd gyda'r cyhoedd ac yn wleidyddol ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd o effeithlonrwydd hyn ar lefelau sbwriel a newid ymddygiad.
- Mae'r ffocws ar orfodi, yn hytrach nag atal, yn rhoi'r cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i weithredu, yn hytrach nag ar yr unigolyn i beidio â thafu sbwriel.

- Mae effeithiolrwydd gorfodi yn gwbl seiliedig ar weledd a risg wirioneddol o gael eich dal.
- Mae'r adnoddau cyfredol yn annigonol er mwyn darparu dulliau gorfodi cyson ac effeithiol.
- Dylid mabwysiadu dulliau gorfodi wedi'u llywio gan wybodaeth, gan ddefnyddio data i gyfeirio adnoddau, a dylai llwyddiant fod yn seiliedig ar ymgysylltu ac ymateb i ddata, nid ar y nifer o gosbau a gyflwynir.
- Byddai safon hyfforddiant cenedlaethol yn hollbwysig er mwyn cyflawni cysondeb ac ymarfer sy'n fwy effeithiol a chyfannol.
- Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn awyddus i weld 'Wardeiniaid Sbwriel', fyddai wedi'u hyfforddi mewn dulliau amrywiol a bod ganddynt bwerau gorfodi i'w defnyddio ledled Cymru fel dull o gynyddu ymgysylltiad, dulliau atal a hyfforddiant, eu bod wedi'u hyfforddi mewn nifer o feysydd i safon uchel ac yn targedu ardaloedd sy'n achosi problemau, mewn ymagwedd sydd wedi'i llywio gan wybodaeth.



carucymru

Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales